

Siarter Cymru ar gyfer Iechyd a Diogelwch ar y Fferm

Mae nifer y ffermwyr sy'n cael eu lladd bob blwyddyn ar ffermydd Cymru yn ystyfnig o uchel. Dros y 10 mlynedd ers 2003, mae 38 o farwolaethau wedi digwydd yn sector amaethyddol Cymru. Mae'r lefel uchel parhaus o farwolaethau ac anafiadau difrifol yn ein gwlad yn achos pryder go iawn.

Mae nifer o fudiadau yng Nghymru sy'n rhoi cefnogaeth i ffermwyr a'r diwydiant ehangach. Drwy gydweithio a chydymdrechu, gallwn wneud llawer i sicrhau bod ffermwyr yn cael yr wybodaeth a'r hyfforddiant priodol i allu addo i'w hunain a'u teuluoedd y byddan nhw'n dychwelyd adref yn ddiogel.

Fel arweinwyr mudiadau sy'n cynrychioli amaethyddiaeth, coedwigaeth, garddwriaeth a diwydiannau cysylltiedig, ein hamcan yw cydweithio i feithrin ymwybyddiaeth a newid ymddygiad. Ein neges allweddol i ffermwyr yw iddyn nhw **oedi, stopio a meddwl** cyn cymryd risg diangen. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i hyrwyddo pwysigrwydd arferion iechyd a diogelwch da ar y fferm. Mae llwyddiant neu fethiant y fenter hon yn ddibynnol ar ffermwyr a gweithwyr fferm unigol yn mynd ati i herio'r broblem ac ymateb i'r alwad frys hon am newid.

Rydyn ni'n cytuno bod angen i ni:

- weithio mewn partneriaeth a chydweithio i ddatblygu dealltwriaeth a chreu ymwybyddiaeth o arferion gorau iechyd a diogelwch ledled diwydiant ffermio Cymru;
- rhoi arweiniad i'r diwydiant ffermio yng Nghymru ar iechyd a diogelwch, gan herio agweddau traddodiadol at risg;

- sicrhau bod yr holl negeseuon rydyn ni'n eu cyfleu yn rhoi sylw priodol i iechyd a diogelwch;
- dangos y camau ymarferol syml y mae llawer o ffermwyr eisoes yn eu cymryd a phwysleisio'r neges bod diogelwch da yn arwydd o ddiwydiant proffesiynol a chyfoes;
- argyhoeddi pawb yn y diwydiant ffermio bod gweithio'n fwy diogel yn arfer gweithio da sy'n cael effaith ar elw a chynaliadwyedd hirdymor pob busnes;
- adeiladu ar y gwaith dros y blynyddoedd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, gan ddefnyddio'i arbenigedd, adnoddau a sylfaen wybodaeth i gefnogi'r gwaith pwysig hwn;
- gweithio yn ein meysydd o ddylanwad i newid diwylliant, agwedd ac ymddygiad ynghylch diogelwch ar y fferm, gan gydlyn negeseuon a blaenoriaethau ar draws y diwydiant;
- ymgysylltu â'n grwpiau ardstio mewnol ac allanol targed, gan gynnwys y wasg a'r cyfryngau, a rhoi'r offer a'r wybodaeth briodol i'w helpu i hyrwyddo negeseuon iechyd a diogelwch allweddol.

Rydyn ni, y mudiadau sydd wedi arwyddo isod, yn datgan ein bod yn ymrwng i gydweithio dros ddiwydiant ffermio mwy diogel yng Nghymru. Rydym yn ymdrechu i leihau'n barhaus nifer y marwolaethau ac anafiadau ymysg ffermwyr, eu teuluoedd, gweithwyr fferm ac eraill sy'n dod i gysylltiad â gweithgareddau ffermio.



Markus W. Smith



Brian Vint



Clifford



Ernest W. Jones



DAS



K.P. THOMAS



Emyr Iwan



Stephen James



Lindsay S. Jones



Rebecca Evans



Samuel Lewis



Keith Jones



K. Miles



Rebecca Evans